



POLISI CWYNIION CORFFORAETHOL

Perchennog y ddogfen	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Fersiwn	3.0
Dyddiad cymeradwyo	Gorffennaf 2019
Corff cymeradwyo	Bwrdd Cymwysterau Cymru
Dyddiad adolygu dogfen	Gorffennaf 2021
Cynulleidfa'r ddogfen	Unrhyw un yn allanol i Gymwysterau Cymru
A gyhoeddir yn fewnol/allanol	Mewnol ac allanol

Polisi Cwynion Corfforaethol Cymwysterau Cymru

1. Mae Cymwysterau Cymru wedi ymrwymo i ddelio'n effeithiol ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai fod gennych. Ein nod yw egluro unrhyw faterion nad ydych yn siŵr ohonynt. Os ydym wedi gwneud camgymeriad, byddwn yn ymddiheuro a lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn ceisio unioni pethau. Ein nod hefyd yw dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r wybodaeth a gawn i wella ein prosesau.

Pryd i ddefnyddio'r polisi hwn

2. Mae'r polisi hwn yn cyflwyno'r mecanwaith i chi gwyno os ydych yn credu ein bod wedi perfformio neu ymddwyn yn wael neu'n amhriodol.
3. Ar wahân i'r ddogfen hon, mae gennym bolisiau sy'n amlinellu sut y byddwn yn delio â chwynion a phryderon eraill. Gweler Paragraff 6 am ragor o fanylion am y polisiau perthnasol hyn.
4. Rydym yn croesawu pryderon sy'n cael eu codi gyda ni a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain trwy ein gwahanol ddulliau. Pa bynnag bolisi y daw eich cwyn oddi tano, byddwn yn eich cyfeirio'n briodol ac yn gyflym.
5. Weithiau, efallai y byddwch yn poeni am faterion nad ydym ni'n penderfynu arnynt, er enghraifft polisi Llywodraeth Cymru. Lle bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi sut i wneud y pryderon hyn yn hysbys.
6. Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin ag:
 - i. Achosion cyfreithiol neu ddyfarniadau. Dylai'r rhain gael eu hanfon ymlaen at y Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol yn <https://qualificationswales.org/cymraeg/amdanom-ni/cysylltu-a-ni/>
 - ii. Dylid cyfeirio cwynion yn ymwneud â chynnig neu ddyfarnu contract ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau at y Pennaeth Caffael yn <https://qualificationswales.org/cymraeg/amdanom-ni/cysylltu-a-ni/>
 - iii. Cwynion gan weithwyr. Ymdrinnir â'r rhain trwy ein polisiau AD mewnol.
 - iv. Penderfyniadau i orfodi cosb ariannol neu swm y gosb honno. Mae gan gyrff dyfarnu'r hawl i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, yn unol ag adran 39 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015;
 - v. Penderfyniadau i adennill costau Cymwysterau Cymru ar gyfer camau gorfodi. Mae gan gyrff dyfarnu'r hawl i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, yn unol ag adran 41 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015;
 - vi. Apeliadau am benderfyniadau rheoleiddio. Dylai'r rhain gael eu gwneud yn unol â'n [Polisi Apeliadau Rheoleiddio](#).

- vii. Cwynion am gorff dyfarnu. Rydym yn disgrifio'r mathau hyn o gwynion a sut y byddwn yn ymateb iddynt yn ein [Polisi Cwynion ynghylch Cyrff Dyfarnu](#); [neu](#)
- viii. Ddatgeliadau a wneir gan weithwyr cyrff dyfarnu. Rydym yn disgrifio'r mathau hyn o gwynion a sut y byddwn yn ymateb iddynt yn ein [Polisi Chwythu'r Chwiban Rheoleiddio](#).

Cwynion Blinderus ac Ailadroddus

7. **Byddwn yn gwrthod delio â chwynion afresymol o barhaus neu flinderus.**
Cwynion afresymol o barhaus a blinderus yw'r rhai lle bernir bod yr achwynydd yn mynd ar drywydd cwyn heb deilyngdod ac yn bwriadu achosi anghyfleustra, aflonyddwch neu gost i'r sefydliad. Os ydym o'r farn bod mater yn afresymol o barhaus neu'n flinderus, byddwn yn cysylltu â'r achwynydd i nodi hyn ac egluro pam.

Pwy all gwyno?

8. Gall unrhyw berson wneud cwyn, a gall unigolion neu grŵp wneud hynny, ar yr amod bod un unigolyn yn cael ei nodi fel y prif gyswllt ar gyfer dibenion cyfathrebu â'r grŵp.
9. Rhaid i gwynion a gyflwynir ar ran unigolyn arall gael eu caniatâd ysgrifenedig i chi weithredu ar eu rhan.
10. Ni fyddwn yn ystyried cwynion a godir yn ddiennw.

Sut ydw i'n cwyno'n ffurfiol?

11. Gallwch fynegi eich pryder drwy unrhyw un o'r ffyrdd isod:
 - Gallwch lenwi copi o'n ffurflen gwyno. Os dewiswch beidio â defnyddio ein ffurflen, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen yn eich dogfen.
 - Gallwch gysylltu â ni trwy ffonio 0333 077 2701 os ydych eisiau gwneud eich cwyn dros y ffôn.
 - Gallwch anfon e-bost atom enquiries@qualificationswales.org
 - Gallwch ysgrifennu llythyr at y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol ar y cyfeiriad canlynol:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd. NP10 8AR

Beth os ydw i angen help?

- Ein nod yw sicrhau ein bod yn deall eich cwyn a byddwn yn sicrhau bod hyn yn digwydd.
- Rydym yn croesawu cwynion o dan y polisi hwn gan bobl o dan 18 oed. Os oes angen help arnoch i gyflwyno cwyn, neu yn ystod y broses o ystyried eich cwyn, gallwch siarad â rhywun ar Linell Gymorth Meic (ffôn 080880 23456, www.meiccymru.org) neu cysylltwch â Chomisiynydd Plant Cymru. Y manylion cyswllt yw:
01792 765600 (De Cymru) 01492 523333 (Gogledd Cymru)
post@childcomwales.org.uk
www.childcom.org.uk

Swyddfa De Cymru: Tŷ Ystumllwynarth Ffordd Ffenics Llansamlet Abertawe SA7 9FS	Swyddfa Gogledd Cymru: Maenor Penrhos Oak Drive Bae Colwyn Conwy LL29 7YW
--	---

Beth a ddisgwyliwn gennych

- Disgwyliwn i chi roi cyfle i ni ystyried eich pryderon neu'ch cwyn yn unol â'r polisi hwn cyn i chi gymryd unrhyw gamau eraill. Ar adegau o bryder neu drallod, gall rhai pobl ymddwyn yn groes i'w cymeriad. Efallai y bu amgylchiadau gofidus neu drallodus yn y cyfnod yn arwain at bryder neu gŵyn. Nid ydym yn ystyried ymddygiad yn annerbyniol dim ond oherwydd bod rhywun yn llym neu'n benderfynol.
- Credwn fod gan bob achwynydd yr hawl i gael ei glywed, ei ddeall a'i barchu. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn bod gan ein staff yr un hawl iau. Felly, rydym yn disgwyl i chi fod yn gwrtais wrth ddelio â ni. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol neu ddifriol, gofynion afresymol na chyndynrwydd afresymol. Mae gennym bolisi ar wahân i reoli sefyllfaoedd lle gwelwn fod gweithredoedd rhywun yn annerbyniol.

Preifatrwydd

16. Rydym yn cadw'ch data personol, ynghyd â'ch cwyn, mewn cronfa ddata at ddibenion cofnodi cynnydd a monitro ein perfformiad. Dim ond yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 y byddwn yn defnyddio'r data personol hwn i ddelio â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi ohono.

Delio â'ch cwyn

17. Bydd cwynion yn cael eu hystyried mewn ffordd deg a thryloyw. O'r herwydd, bydd y bobl sy'n adolygu'r gŵyn yn sicrhau eich bod yn cael gwybod am y canlynol, ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt:
 - Enwau'r bobl sy'n adolygu'ch cwyn.
 - Pryd byddwn yn disgwyl cwblhau'r adolygiad ac unrhyw amserlenni diwygiedig, os bydd oedi neu ohirio annisgwyl.
 - Y dystiolaeth neu'r dogfennau allweddol sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol a'r hawl i ofyn am gopi a gwrthbrofi neu ddadlau gonestrwydd neu gywirdeb y dystiolaeth honno.
 - Y penderfyniad terfynol ar ffurf adroddiad neu ddatganiad ysgrifenedig.
 - Byddwn yn cydnabod eich cwyn yn ffurfiol, fel arfer o fewn 5 diwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw'ch cwyn y tu allan i gwmpas y polisi hwn a byddwn yn eich cynghori ar ba gamau y byddwch yn dymuno eu cymryd.
 - Byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi a sefydlu a oes gennych unrhyw ofynion penodol.
 - Byddwn yn sicrhau na fydd eich trafodion â ni'n cael eu heffeithio yn y dyfodol, dim ond oherwydd eich bod wedi mynegi pryder neu wedi gwneud cwyn.
 - Fel rheol, byddwn ond yn gallu edrych ar eich cwyn os dywedwch wrthym amdani o fewn 6 mis ar ôl y digwyddiad. Mae hyn oherwydd ei bod yn well ymchwilio i'ch pryderon tra bod y materion yn dal i fod yn fyw ym meddyliau pawb.
18. Efallai y byddwn mewn amgylchiadau eithriadol yn gallu edrych ar gwynion sy'n cael eu dwyn i'n sylw yn hwyrach na hyn. Fodd bynnag, rhaid i chi roi rhesymau cryf i ni pam nad ydych wedi gallu dwyn ein sylw ati yn gynharach a bydd angen i ni gael digon o wybodaeth am y mater er mwyn caniatáu i ni ei hystyried yn iawn. Beth bynnag, waeth beth fo'r amgylchiadau, ni fyddwn yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd fwy na blwyddyn yn ôl.

19. Wrth ystyried edrych ar gwynion a godwyd gyda ni ar ôl 6 mis, byddwn yn ystyried ffactorau gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i:
- Y rhesymeg dros gyflwyno'n hwyr a thystiolaeth gefnogol ynghylch pam nad oedd yr achwynydd yn gallu cyflwyno cwyn o fewn y cyfnod penodedig.
 - Y wybodaeth sydd ar gael i Gymwysterau Cymru alluogi cwblhau ymchwiliad.

Beth os oes mwy nag un corff yn ymwneud â'r mater?

20. Gallwch hefyd gwyno wrthym am gorff sy'n gweithio ar ein rhan (e.e. contractwyr). Cysylltwch â ni'n uniongyrchol i gwyno am unrhyw un sy'n gweithio ar ran Cymwysterau Cymru.


Proses ymdrin â chwynion corfforaethol

Cam 1: Datrys yn anffurfiol



21. Os oes gennych bryderon, yna mae'n well ein gwneud yn ymwybodol cyn gynted â phosibl fel y gallwn geisio mynd i'r afael â'r materion. Yn gyntaf, dylech roi cyfle i ni ymateb i'ch ymholiad. Os nad ydych yn hapus â'n hymateb, byddwch yn gallu gwneud eich pryder yn hysbys fel y disgrifiwn isod.
22. Os yw'n bosibl, credwn ei bod yn well delio â phethau ar unwaith yn hytrach na cheisio eu datrys yn nes ymlaen. Os oes gennych bryder, codwch ef yn gyntaf gyda'r person rydych yn delio ag ef. Bydd ef neu hi'n ceisio ei datrys i chi yn y fan a'r lle. Os oes unrhyw wersi i'w dysgu o fynd i'r afael â'ch pryder, yna bydd yr aelod o staff yn eu tynnu at ein sylw. Os na all yr aelod o staff helpu, byddant yn egluro pam, yn cyfeirio'r mater lle bo hynny'n briodol ac os ydych yn parhau i fod yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch ofyn am ymchwiliad ffurfiol.


Cam 2: Cwyn Ffurfiol



23. Byddwn yn dweud wrthy ch pwy rydym wedi'i holi i ystyried eich pryder neu'ch cwyn. Bydd hyn bob amser yn cael ei arwain gan rywun sydd heb fod yn rhan o'r mater. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn cadw'r hawl i ofyn i unigolyn annibynnol arwain neu gyfrannu at ymchwiliad i unrhyw gŵyn. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn ei gwneud yn glir wrth gyfathrebu â chi.
24. Byddwn yn nodi ein dealltwriaeth i chi o'ch pryderon ac yn gofyn i chi gadarnhau ein bod wedi deall pethau'n iawn. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ddweud wrthym pa ganlyniad rydych chi'n gobeithio amdano.

25. Fel rheol, bydd angen i'r unigolyn sy'n edrych ar eich cwyn weld unrhyw ffeiliau sydd gennym yn berthnasol i'ch cwyn. Efallai y bydd angen iddynt siarad ag unrhyw dystion neu unrhyw un a all helpu gyda'r ymchwiliad hefyd. Os nad ydych chi am i hyn ddigwydd, mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrthym ac yn egluro pam. Os nad ydych chi am i ni wneud hyn efallai na fyddwn yn gallu ymchwilio i'ch cwyn, ond byddwn yn trafod hyn gyda chi.
26. Lle bo modd, byddwn yn dod o hyd i ateb syml i'ch problem.
27. Rydym yn anelu at ddatrys cwynion mor sydyn â phosibl ac yn disgwyl delio ar y mwyaf o fewn 20 diwrnod gwaith. Os yw eich cwyn yn fwy ffurfiol, byddwn yn:
- rhoi gwybod i chi o fewn yr amser hwn pam rydym yn meddwl y gallai gymryd mwy o amser i ymchwilio a dweud wrthyfych pa mor hir yr ydym yn disgwyl iddo gymryd.
 - rhoi gwybod i chi am gynnydd gyda'r ymchwiliad, a rhoi diweddariadau rheolaidd i chi, gan gynnwys dweud wrthyfych a allai unrhyw ddatblygiadau newid ein hamcangyfrif gwreiddiol.
28. Bydd yr unigolyn sy'n ymchwilio i'ch pryderon yn anelu at sefydlu'r ffeithiau yn gyntaf. Bydd maint yr ymchwiliad hwn yn dibynnu ar gymhlethdod a difrifoldeb y materion rydych wedi'u codi. Mewn achosion cymhleth, byddwn yn sefydlu cynllun ymchwilio.
29. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn gofyn am gael cwrdd â chi i drafod eich pryderon. Weithiau, efallai y byddwn yn awgrymu cyfryngu neu ddull arall i geisio datrys anghydfodau.
30. Byddwn yn edrych ar dystiolaeth berthnasol. Gallai hyn gynnwys ffeiliau, nodiadau o sgysiau, llythyrau, e-byst neu beth bynnag a allai fod yn berthnasol. Os oes angen, byddwn yn siarad â'r staff neu eraill sy'n gysylltiedig ac yn edrych ar ein polisïau ac unrhyw hawl gyfreithiol a chanllawiau.

Cam 3: Adolygiad mewnol



31. Os ydych chi yn credu nad ymdriniwyd â'ch cwyn yn iawn, gallwch wneud cais am adolygiad mewnol Cymwysterau Cymru.

32. I wneud cais am adolygiad mewnol i'w ystyried yn fewnol gan Gymwysterau Cymru, ysgrifennwch at ein Prif Weithredwr ar y cyfeiriad uchod, gyda chopi at y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, oni bai eich bod wedi cael gwybod yn wahanol pan ysgrifennwn atoch gyda'r canlyniad.
33. Wrth gyflwyno eich cais am adolygiad mewnol, dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- nodwch pam eich bod yn credu na reolwyd eich cwyn yn iawn
 - yr ateb rydych yn ei geisio
 - eich enw llawn
 - gwybodaeth gyswllt
34. Wrth gyflwyno cais am adolygiad mewnol, disgwylir i chi gyflwyno datgeliad llawn a gonest o'r holl ffeithiau perthnasol.
35. Dylech gyflwyno'ch cais am adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn ein hymateb i'r gŵyn gychwynnol.
36. Os na allwch wneud eich cais am adolygiad mewnol yn ysgrifenedig, ffoniwch ni ar 0333 077 2701.

Delio â'ch cwyn

37. Byddwn fel arfer yn cydnabod derbyn eich cais cyn pen 5 diwrnod gwaith. Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ein Prif Swyddog Gweithredol fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad yr adolygiad. Os yw'r Prif Swyddog Gweithredol yn ymwneud yn bersonol â'r mater a godwyd neu wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad cynharach, yna bydd eich cais yn cael ei adolygu gan rywun annibynnol, fel arfer Cadeirydd y Bwrdd neu Gadeirydd y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio.

Canlyniad

38. Os byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn yn ffurfiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth rydym wedi'i ddarganfod yn unol â'ch hoff ddull cyfathrebu. Gallai hyn fod trwy lythyr neu e-bost, er enghraifft. Os oes angen, byddwn yn cynhyrchu adroddiad hirach. Byddwn yn esbonio sut a pham y daethom i'n casgliadau.

39. Os gwelwn ein bod wedi gwneud pethau'n anghywir, byddwn yn dweud wrthyich beth a pham y digwyddodd. Byddwn yn dangos sut yr effeithiodd y camgymeriad arnoch chi.
40. Os gwelwn fod nam yn ein systemau neu'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau, byddwn yn dweud wrthyich am hynny a sut rydym yn bwriadu newid pethau i'w atal rhag digwydd eto. Os gwnaethom gamgymeriad, byddwn bob amser yn ymddiheuro. Byddwn hefyd yn dweud wrthyich sut y gallwch ofyn am adolygiad o'n penderfyniad.

Ombwdsmon

41. Os na lwyddwn i ddatrys eich cwyn, gallwch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth a gall ystyried eich cwyn os ydych chi'n credu eich bod chi, yn bersonol, neu'r unigolyn yr ydych chi'n cwyno ar ei ran, wedi cael eich trin yn annheg neu wedi bod o dan anfantais yn bersonol oherwydd gweithred gan Gymwysterau Cymru.
42. Mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i chi ddwyn eich pryderon i'n sylw yn gyntaf a rhoi cyfle i ni unioni pethau. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon trwy:
 - ffôn: 0845 601 0987
 - e-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
 - y wefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk
 - ysgrifennwch at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

43. Mae yna sefydliadau eraill hefyd sy'n ystyried cwynion. Er enghraifft, Comisiynydd yr Iaith Gymraeg am wasanaethau yn Gymraeg. Byddwn yn darparu arweiniad i chi am sefydliadau o'r fath fel sy'n briodol.

Dysgu gwersi

44. Rydym yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau rydym wedi'u gwneud. Mae ein huwch dîm rheoli yn ystyried crynodeb o'r holl gwynion bob chwarter, yn ogystal â manylion unrhyw gwynion difrifol. Mae ein Bwrdd hefyd yn ystyried ein hymateb i gwynion unwaith y flwyddyn.

45. Pan fydd angen newid, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud, pwy fydd yn ei wneud ac erbyn pryd y byddwn yn bwriadu ei wneud. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd newidiadau yr ydym wedi'u haddo wedi'u gwneud.

Atodiad A (o'r polisi) Ffurflen Bryder/Gwyno enghreifftiol

A: Eich manylion

Cyfenw	Enw(au) cyntaf:	Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms/os yw'n deitl arall, nodwch:
Cyfeiriad a chod post:		
Eich cyfeiriad e-bost:		
Rhif ffôn cyswllt yn y dydd		
Rhif symudol:		

Nodwch pa un o'r dulliau uchod yr hoffech i ni gysylltu â chi

Eich gofynion: os yw ein ffordd arferol o ddelio â chwynion yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio ein gwasanaeth, er enghraifft os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf neu os oes angen i chi ymgysylltu â ni mewn ffordd benodol, dywedwch wrthym, fel ein bod yn gallu trafod sut y gallem eich helpu.

Dylai'r unigolyn a brofodd y broblem lenwi'r ffurflen hon fel rheol. Os ydych chi'n llenwi hon ar ran rhywun arall, llenwch adran B. Sylwch, cyn bwrw ymlaen â'r gŵyn, bydd angen i ni fodloni ein hunain bod gennych yr awdurdod i weithredu ar ran yr unigolyn dan sylw.

B: Gwneud cwyn ar ran rhywun arall: Eu manylion

Eu henw llawn:
Cyfeiriad a chod post:
Beth yw eich perthynas â nhw?
Pam ydych chi'n gwneud cwyn ar eu rhan?

C: Am eich cwyn/pryder (Defnyddiwch daflen(ni) ar wahân os ydych eisiau parhau i ateb y cwestiynau canlynol os oes angen)

C.1 Enw'r adran/adain rydych yn gwneud cwyn amdanynt:

C.2 Beth ydych chi'n meddwl maent wedi'i wneud o'i le, neu wedi methu ei wneud?

C.3 Disgrifiwch sut rydych chi'n bersonol wedi dioddef neu wedi cael eich effeithio.

C.4 Beth ydych chi'n meddwl y dylid ei wneud i unioni pethau?

C.5 Pryd a sut y daethoch yn ymwybodol o'r broblem gyntaf?

C.6 A ydych eisoes wedi rhoi eich pryder i'r staff sy'n gyfrifol? Os felly, rhowch fanylion cryno ar sut a phryd y gwnaethoch hynny.

C.7 Os yw'n fwy na 6 mis ers i chi ddod yn ymwybodol gyntaf o'r broblem, rhowch y rheswm pam nad ydych wedi cwyno o'r blaen.

C.8 Tystiolaeth briodol bod y digwyddiad wedi digwydd.

C.9 Pa ganlyniad yr hoffech ei gael?

Os oes gennych unrhyw ddogfennau i gefnogi'ch pryder/cwyn, atodwch nhw gyda'r ffurflen hon. Rhestrwch nhw yma:

Llofnod:

Dyddiad:

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, anfonwch hi at:
[Enw (cwynion canolog)]